# Taith Pererin

## Gogledd Cymru

*Adnodd ar gyfer athrawon*



Cefnogi Cwricwlwm newydd Cymru



Cadw

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

3 - 4 **Cyflwyniad**

5 - 8 **Hanes**

5 Beth yw pererindod?

6 Beth yw pererin?

8 Beth yw Taith Pererin Gogledd Cymru?

## Gweithgareddau

9 **Ymchwilio i Bererinion: Crynodeb**

10 Gweithgaredd 1: Beth yw pererindod?

11 Gweithgaredd 2: Beth yw pererin?

12 Gweithgaredd 3: Beth yw Taith Pererin Gogledd Cymru?

13 -17 *Atodiad*

18 **Dod yn Bererin: Crynodeb**

19 Gweithgaredd 4: Beth sydd ar Bererin ei angen?

20 Gweithgaredd 5: Pa lwybr fyddech chi'n ei ddilyn ar Daith Pererin Gogledd Cymru?

21 Gweithgaredd 6: Beth fyddai'n bererindod leol i chi?

22 - 26 *Atodiad*

27 **Bod yn Bererin: Crynodeb**

28 Gweithgaredd 7: Pererin ymarferol

29 Gweithgaredd 8: Pererin ysbrydol

30 Gweithgaredd 9: Profiad o fod yn bererin

31 - 32 *Atodiad*

33 **Pererin Myfyriol: Crynodeb**

34 Gweithgaredd 10: Pererin Myfyriol

Llun y Clawr ©William Evers-Swindell

# Sut i ddefnyddio'r adnodd hwn

Cafodd yr adnodd hwn ei gynllunio a'i ddatblygu gan dîm o wirfoddolwyr talentog fel rhan o Brosiect Gwirfoddolwyr gan Cadw, i gefnogi'r cwricwlwm yng Nghymru.

Comisiynwyd Keystone Heritage gan dîm Dysgu Gydol Oes Cadw i reoli'r prosiect ac maen nhw wedi arwain a chefnogi'r broses greadigol.

Nid dyma'r tro cyntaf i'r grŵp hwn o wirfoddolwyr dawnus o ardal Dyffryn Maes Glas, Treffynnon, Gogledd Cymru, gynnal prosiect ystyrlon a chyffrous. Gweler Pecynnau Addysg Cyfnod Allweddol 2 | Cadw (llyw.cymru) – pecynnau adnoddau ar Abaty Dinas Basing a Threftadaeth Ddiwydiannol .

Mae Cadw'n cynnig cyfleoedd unigryw i wirfoddoli a chefnogi ein safleoedd hanesyddol ac maent bob amser yn agored i weithgareddau sy'n seiliedig ar brosiectau ac sy'n defnyddio hanes unigryw a chyfoethog Cymru mewn ffyrdd cyffrous a newydd er mwyn cyfrannu at y broses ddysgu.

Cewch fanylion am wirfoddoli i Cadw yma Gwirfoddoli | Cadw (llyw.cymru)
neu cysylltwch â cadw.education@llyw.cymru

Gobeithio y mwynhewch
Dysgu Gydol Oes Cadw

## Taith Pererin Gogledd Cymru

Llwybr cerdded 135 milltir a ysbrydolwyd gan bererinion y gorffennol, o Abaty Dinas Basing yn Nyffryn Maes Glas, Sir y Fflint i Ynys Enlli, yw Taith Pererin Gogledd Cymru. Bu pobl yn mynd ar bererindodau i'r safleoedd crefyddol ar hyd Taith Pererin Gogledd Cymru ers canrifoedd. Ceir gwybodaeth am Daith Pererin Gogledd Cymru, y llwybrau cerdded, y mannau hanesyddol a chrefyddol allweddol a'u hanes ar wefan Taith Pererin Gogledd Cymru ~ North Wales Pilgrim's Way (pilgrims-way-north-wales.org)

## Cefnogi Cwricwlwm newydd Cymru

Bwriad yr adnodd hwn yw cefnogi'r Cwricwlwm newydd i Gymru trwy weithgareddau a ysbrydolir gan y pedwar diben a'r chwe maes dysgu a thrwy ddarparu gweithgareddau trawsgwricwlaidd a datblygu sgiliau. Gall athrawon addasu'r gweithgareddau i helpu'r disgyblion i symud ymlaen. Bwriedir i'r adnodd gael ei ddefnyddio yn yr ysgol. Mae hefyd yn annog disgyblion i ddod i nabod eu hardal nhw a safleoedd lleol Cadw ynghyd â safleoedd ar Daith Pererin Gogledd Cymru gan eu helpu i ddarganfod eu hymdeimlad o gynefin a'u straeon unigryw.

## Defnyddio'r gweithgareddau

Rhennir yr adnodd hwn yn bedair adran; Ymchwilio i Bererinion, Dod yn Bererin, Bod yn Bererin a Pererin Myfyriol. Mae gan bob gweithgaredd restr o gyfarwyddiadau, pynciau allweddol, sgiliau ac offer. Mae copïau o'r taflenni gweithgareddau/gwybodaeth yn atodiadau'r adrannau a dolenni iddynt yn y gweithgareddau. Mae dolen o'r rhan fwyaf o luniau i ddelweddau cydraniad uwch sydd ar y Rhyngrwyd. Gallwch eu cyrchu trwy chwith-glicio'r llun.

## Pererindod Pod: Y Ffilm

Cyn dechrau ar eich gweithgareddau, gwyliwch ein ffilm fer am Pod a'i Bererindod i Ynys Enlli.

## Pererindod Pod



Ynys Enlli ©William Evers-Swindell

# Mannau o Ddiddordeb ar Daith Pererin Gogledd Cymru




**CLICIWCH YMA**
i weld map rhyngweithiol Google

Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council

1. Maes Glas: Abaty Dinas Basing
2. Treffynnon: Ffynnon Gwenffrewi
3. Chwitffordd: Eglwys y Santes Fair a Beuno Sant
4. Chwitffordd: Maen Achwyfan
5. Llanasa: Eglwys Sant Asa a Sant Cyndeyrn
6. Trelawnyd: Eglwys Sant Mihangel

Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council

7. Tremeirchion: Eglwys Corpus Christi
8. Llanelwy: Cadeirlan Sant Asaph
9. Cefn: Eglwys y Santes Fair

Conwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol

10. Llannefydd: Eglwys Nefydd Sant a'r Santes Fair
11. Llansannan: Eglwys Sant Sannan
12. Llangernyw: Eglwys Sant Digain
13. Eglwys-bach: Eglwys Sant Martin
14. Rowen: Capel Seion
15. Llangelynnin: Eglwys Sant Celynnin

Cyngor Gwynedd Council

16. Bangor: Cadeirlan Bangor
17. Clynnog Fawr: Eglwys Beuno Sant
18. Pistyll: Eglwys Beuno Sant
19. Nefyn: Hen Eglwys y Santes Fair
20. Aberdaron: Eglwys Sant Hywyn
21. Ynys Enlli: Capel Ynys Enlli

# Hanes - *Beth yw pererindod?*


Rhaeadr Aber ©Chris Potter

## Beth yw pererindod?

Yn hanesyddol, mae pererindod yn golygu taith, yn aml i rywle sy'n bwysig i ffydd neu gredoau rhywun. Gall fod i fan anhysbys neu le tramor neu gall fod i leoliad penodol o ddiddordeb lle mae rhywbeth wedi digwydd e.e. gwyrth. Yn ogystal, gellir mynd ar bererindod i fan geni neu fan marw sant a gall fod cysegrfa neu deml yno. Mae pobl yn mynd ar bererindod am wahanol resymau gan gynnwys rhesymau ysbrydol neu grefyddol, i ddarganfod mwy amdanyn nhw'u hunain, yn y gobaith o gael iachâd neu i gael profiad o fyd natur. Bu pererindodau'n rhan gyffredin o lawer o grefyddau'r byd ers amser maith, gan gynnwys Cristnogaeth, Iddewiaeth, Islam, Bwdhaeth, Hindŵaeth a Shinto. Gelwir rhywun sy'n gwneud taith o'r fath yn bererin.


David Teniers yr Ieuengaf: Pererin Fflemaidd (PD)


Tibetiaid ar bererindod i Lhasa, yn ymostwng ar eu hyd ar lawr, yn aml ar hyd y daith gyfan ©Gao


Cadeirlan Bangor ©William Evers-Swindell

# Hanes - *Beth yw pererin?*

Dros y waun i'r Fron ©Chris Potter



## Beth yw pererin?



Pum aelod o'r Utrecht Brotherhood of Jerusalem Pilgrims (PD)

Teithiwr yw pererin. Yn draddodiadol, âi pererinion ar daith i le sanctaidd ond yn y cyfnod mwy modern gall fod i le sy'n arbennig iddyn nhw neu o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol. Yn aml, mae'n daith gorfforol ac fel arfer ar droed. Bu hanes o bererindota mewn llawer o grefyddau, yn cynnwys crefyddau'r hen Aifft, Persia yng nghyfnod Mithräeth, India, Tsieina a Japan. Roedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn credu mewn ymgynghori â'r duwiau trwy oraclau lleol a byddent yn teithio i gael eu cyngor personol a gwleidyddol. Gan amlaf, mae pererinion yn teithio i le penodol. Er hynny, yn nyddiau Cristnogaeth Geltaidd gynnar, roedd grŵp o bererinion o'r enw "merthyron gwyn" y Pererinion dros Grist yn gadael eu cartrefi am gyrchfan anhysbys gan ymddiried mewn rhagluniaeth ddwyfol a sefydlu cymunedau crefyddol yn y man lle'r oeddent yn cyrraedd.



Ffordd Sant Iago ©Jule_Berlin

Mae llawer o grefyddau a chredoau'n dal i annog pererindota hyd heddiw. Rhaid i Fwslimiaid wneud yr Hajj, y Bererindod Islamaidd fawr i Mecca, unwaith yn eu hoes. Mae Rhufain hefyd yn gyrchfan boblogaidd i rai pererinion Cristnogol a'r traddodiad oedd bod dwy bererindod i Ynys Enlli ar Daith Pererin Gogledd Cymru yn cyfateb i un i Rufain. Yn y diwylliant Bwdhaidd mae pobl yn pererindota i leoedd sy'n gysylltiedig â bywyd Bwdha. Mae hyn yn cynnwys y mannau lle cafodd ei eni a lle bu'n byw, mannau yr ymwelodd â nhw a lle bu farw yn ogystal â themlau a mynachlogydd lle gwelir creiriau Bwdhaidd. Yn y

diwylliant Hindŵaidd mae pererinion yn cerdded i ddinasoedd ac afonydd sanctaidd a chopaon Mynyddoedd Himalaia, ogofâu a gwyliau. Erbyn hyn, cynhelir mwy o bererindodau diwylliannol, sef taith bersonol i safleoedd sy'n gysylltiedig â digwyddiadau hanesyddol a phensaernïaeth. Mae'r rhesymau dros fynd ar bererindod a'r hyn y mae pererinion yn gobeithio'i gyflawni yn amrywiol a gallant gynnwys rhesymau crefyddol, diwylliannol neu wleidyddol. Yn ól y són, roedd pererinion yn cario cragen fylchog yn symbol eu bod wedi cwblhau'r daith i Santiago de Compostella yn Sbaen. Daeth y gragen yn symbol ar gyfer pererinion ym mhobman, i'w ddefnyddio i godi dŵr, i dderbyn elusen (arian) ac yn arwydd i'w hongian uwchben drysau i ddangos croeso i deithwyr.

### Dolenni darllen pellach

Pererinion a Phererindota



Pererin oedrannus, Gompa Tsurphu, Tibet, 1993 ©John Hill



Pererinion Mwslimaidd yn cerdded o amgylch ciwb du y Kaaba ym Mosg Al-Haram ©Moataz Egbaria

# Hanes - *Beth yw Taith Pererin Gogledd Cymru?*



Eglwys Beuno Sant, Pistyll ©William Evers-Swindell

## Beth yw Taith Pererin Gogledd Cymru?

Datblygwyd Taith Pererin Gogledd Cymru yn 2011 wedi'i hysbrydoli gan bererindodau'r gorffennol o Abaty Dinas Basing i Ynys Enlli. Mae'r daith 135 milltir yn cynnwys coetiroedd, afonydd, llethrau mynyddoedd, pentrefi a ffyrdd arfordirol.

Denwyd pererinion i Ynys Enlli ers canrifoedd lawer. Sefydlodd Cadfan Sant gymuned Gristnogol yno 1,500 o flynyddoedd yn ôl ac mae pererinion yn dal i ymweld â'r ynys. Mae'r daith fodern yn cysylltu eglwysi hynafol, tirweddau a mannau hanesyddol.

Abaty Dinas Basing yw man cychwyn Taith Pererin Gogledd Cymru. Yn wreiddiol, roedd yn fan gorffwys ac yn ysbyty ar gyfer teithwyr. Teithiai pererinion i'r mannau hyn oherwydd eu cysylltiadau â gwahanol seintiau. Heddiw, gellir casglu stampiau o wahanol fannau ar hyd y daith mewn pasbort.



Abaty Dinas Basing ©William Evers-Swindell

### Dolenni darllen pellach

Gwefan Taith Pererin Gogledd Cymru

Abaty Dinas Basing, Ffynnon Gwenffrewi,

Cadeirlan Llanelwy, Cadeirlan Bangor



# Ymchwilio i Bererinion

Yn yr Ysgol

## Cysylltiadau â’r Cwricwlwm

Y Dyniaethau   Y Celfyddydau Mynegiannol   Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae’r adran hon yn canolbwyntio ar ddisgyblion yn ymchwilio a darganfod drostynt eu hunain beth yw pererindod, pererin a Thaith Pererin Gogledd Cymru. Bydd y disgyblion yn canolbwyntio ar bererindodau yng Nghymru ac yn edrych ar rai byd-eang. Byddant yn ystyried beth yw pererin a pham mae pobl yn mynd ar bererindodau gan ganolbwyntio ar bersbectif pobl sydd â gwahanol gredoau crefyddol ac anghrefyddol, yn y gorffennol a heddiw. Byddant yn cymharu teithiau pererinion a ffoaduriaid ac yn ystyried rhesymau eraill dros fynd ar daith hir. Byddant yn casglu gwybodaeth ac yn cyflwyno’u canfyddiadau i’r dosbarth a chânt eu hannog i drafod a rhannu gwahanol syniadau yn ogystal â meddwl am eu barn bersonol.

## Awgrymiadau am Weithgareddau

1. *Beth yw pererindod?*
2. *Beth yw pererin?*
3. *Beth yw Taith Pererin Gogledd Cymru?*



# BETH YW PERERINDOD?

Mae'r gweithgareddau isod yn annog disgyblion i ymchwilio i'r hyn yw pererindod. Mae pererindod yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl ac mae'r diffiniad a'r bwriad wedi datblygu a thyfu dros amser. Gan amlaf, mae pererindodau'n digwydd ar droed ac yn golygu teithio cryn bellter oddi cartref er y gallant fod i fan o ddiddordeb yn lleol. Fel rheol, mae pererindodau'n mynd i rywle arwyddocaol boed hynny am resymau ysbrydol, crefyddol, diwylliannol neu bersonol.

**Gallai'r disgyblion:**

- Ystyried taith bosibl a beth allai hynny ei olygu.
- Ystyried taith maen nhw wedi bod arni, y gwahanol resymau dros wneud y daith honno a sut y gwnaeth y teithiau hynny iddyn nhw deimlo.
- Ymchwilio a darganfod beth yw pererindod a beth mae hynny'n ei olygu i wahanol bobl.
- Ymchwilio i hanes pererindota yng Nghymru a'r byd.
- Canfod ble mae'r bererindod agosaf atyn nhw a phererindodau eraill o gwmpas y byd.
- Ymchwilio i bererindodau Cymreig eraill gan gynnwys rai i Gadeirlan Tyddewi ac Ynys Bŷr, Dinbych-y-pysgod.
- Trafod y gwahanol fathau o bererindodau a ganfuwyd a sôn am unrhyw debygrwydd a gwahaniaeth rhyngddynt.
- Rhannu a chyflwyno'u syniadau trwy gyflwyniad, PowerPoint neu drafodaeth.

**Gallai'r disgyblion ystyried:**

- *Beth mae pererindod yn ei olygu iddyn nhw?*
- *Beth yw'r ffeithiau mwyaf diddorol y maent wedi'u darganfod?*
- *Beth yw eu hoff lwybr pererindod o'r rhai y maent wedi'u darganfod a pham?*
- *I ble y byddent yn dewis mynd ar bererindod a pham?*

Abaty Dinas Basing ©William Evers-Swindell



## Sgiliau

- Ymchwilio
- Darllen
- Ysgrifennu
- Cyfathrebu
- Llafaredd
- Chwilfrydedd
- Gwerthuso

## Offer

- Y Rhyngrwyd
- Papur
- Pensiliau
- Llyfrgell
- PowerPoint

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Dolenni

- What is a pilgrimage? | National Trust
- Pilgrimage - GCSE Religious Studies Revision - BBC Bitesize

# BETH YW PERERIN?



Mae'r gweithgareddau isod yn annog disgyblion i ymchwilio ac ystyried beth yw pererin ac yn ennyn chwilfrydedd am y mathau o bobl sy'n mynd ar bererindod. Bydd y disgyblion yn edrych ar y rhesymau pam mae pobl yn dewis mynd ar bererindod – gallai'r rheiny gynnwys rhesymau ysbrydol, crefyddol, personol a diwylliannol.

**Gallai'r disgyblion:**

- Ddarganfod beth yw pererin.
- Ymchwilio i weld pwy sy'n mynd ar bererindod.
- Edrych ar y rhesymau pam mae pobl yn mynd ar bererindod gan feddwl am wahanol gredoau a safbwyntiau personol.
- Creu cerdyn chwarae rhan gan ddefnyddio Atodiad 1 ar gyfer pob gwahanol fath o bererin y maent wedi eu canfod.
- Holi ei gilydd mewn cymeriad am y gwahanol fathau o bererinion y maent wedi'u canfod er mwyn gweld y tebygrwydd a'r gwahaniaeth rhyngddynt. (Atodiad 1)
- Holi pererinion modern.
- Ymchwilio i'r syniad o archdeipiau a'u gwahanol nodweddion gan ddefnyddio Atodiad 2. Yn aml, cysylltir pererin ag archdeip fforiwr. Gallai'r disgyblion ddefnyddio hyn i'w helpu i feddwl pam mae pererinion yn mynd ar bererindod.
- Defnyddio'r Canterbury Tales i'w hysbrydoli i feddwl am y straeon y gallai pererinion eu hadrodd ar eu taith. Casgliad o straeon a adroddwyd fel rhan o gystadleuaeth gan bobl a gyfarfu ar bererindod yw'r Canterbury Tales. Maent yn edrych ar fywyd yn Lloegr yn yr Oesoedd Canol a chawsant eu hysgrifennu mewn Saesneg Canol.
- (Plant iau) Defnyddio cymeriadau o storïau y maent yn eu gwybod a'u paru ag archdeipiau eraill gan lenwi'r Daflen Weithgaredd (Atodiad 3).
- Dewis rhan o'r ysgol/iard i 'fynd ar bererindod' iddi. Creu stori wneud am eu taith a'i hailadrodd wrth ei gilydd.
- (Plant hŷn) Defnyddio'r gwahanol gymeriadau yn y Canterbury Tales a'u paru â'r archdeipiau y maent wedi ymchwilio iddynt gan feddwl pwy ydynt a pham y maent ar eu taith.



Ynys Enlli ©William Evers-Swindell

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Darllen
- Ysgrifennu
- Llafaredd
- Cyfathrebu
- Chwilfrydedd

## Offer

- Y Rhyngrwyd
- Papur
- Pensiliau
- Llyfrgell
- PowerPoint
- Atodiad 1
- Atodiad 2
- Atodiad 3

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Dolenni

- Archetypes - Encyclopedia Britannica
- York University Pilgrims and Pilgrimage

# BETH YW TAITH PERERIN GOGLEDD CYMRU



Mae'r gweithgareddau isod yn annog disgyblion i ymchwilio i ganfod beth yw Taith Pererin Gogledd Cymru. Cynlluniwyd y llwybr yn wreiddiol gan wirfoddolwyr yn 2011 ac mae'n cynnwys lleoedd o arwyddocâd crefyddol a hanesyddol yn ogystal â thirwedd hardd Gogledd Cymru gan orffen ar Ynys Enlli.

**Gallai'r disgyblion:**

- Ymchwilio i ganfod beth yw Taith Pererin Gogledd Cymru.
- Ymchwilio i'r gwahanol safleoedd ar hyd y llwybr gan ddefnyddio'r rhestr yn Atodiad 4.
- Cymharu a chyferbynnu'r gwahanol safleoedd e.e eglwysi, cylchoedd cerrig, byd natur. Beth sy'n debyg/wahanol?
- Cymharu a chyferbynnu'r mannau lle mae'r safleoedd e.e. cefn gwlad a dinasoedd. Beth sy'n debyg/wahanol?
- Rhannu a chyflwyno'u syniadau trwy gyflwyniad, PowerPoint neu drafodaeth.
- Defnyddio'r ffotograffau yn Atodiad 5 i'w helpu i ddysgu mwy am y daith.

**Gallai'r disgyblion ystyried:**

- *Beth sy'n gwneud y gwahanol safleoedd yn fan addas ar gyfer pererindod a pham mae pobl yn mynd yno?*
- *Pa un o safleoedd Taith Pererin Gogledd Cymru fyddai orau ganddyn nhw fynd ar daith iddo?*
- *Pa elfennau o'r safle sy'n apelio fwyaf atynt?*

Pererinion a'r Eifl ©Mike Costello



## Sgiliau

- Ymchwilio
- Darllen
- Ysgrifennu
- Llafaredd
- Cyfathrebu
- Chwilfrydedd
- Gwerthuso

## Offer

- Y Rhyngrwyd
- Papur
- Pensiliau
- Llyfrgell
- PowerPoint
- Atodiad 4
- Atodiad 5

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Dolenni


- Taith Pererin Gogledd Cymru ~ North Wales Pilgrim's Way (pilgrims-way-north-wales.org)

# Atodiad 1 Cardiau Chwarae Rhan

Cwestiynau y gallech eu gofyn

1. Beth yw'ch enw chi?
2. Beth mae'r gair pererindod y ei olygu i chi?
3. I ble rydych chi'n teithio?
4. Pam rydych chi'n mynd ar y bererindod?
5. Gyda phwy rydych chi'n teithio?
6. I ble'r hoffech chi fynd?
7. Beth yw'r heriau sy'n eich wynebu ar eich pererindod?
8. Sut rydych chi'n teimlo wrth fynd ar bererindod?

# Atodiad 2 Archdeipiau



### Arwr

Nodweddion
Nerth, dewrder, stamina, ffydd, wynebu anawsterau mawr



### Arweinydd

Nodweddion
Trefn, sefydlogrwydd, rheolaeth, traddodiad




### Dyn Doeth

Nodweddion
Doethineb, deallusrwydd, meddwl clir, gwneud penderfyniadau rhesymegol



### Consuriwr

Nodweddion
Creu syndod, bod yn graff, sythwelediad/greddf, clyfrwch




### Rhywun Diniwed fel Plentyn

Nodweddion
Bod yn agored i brofiadau, ymddiried/trystio, gonest



### Crëwr

Nodweddion
Anghydffurfio, dychymyg, gwerthfawrogi aestheteg



### Rhywun da am gydweithio

Nodweddion
Perthyn i grŵp, parod i helpu eraill




### Fforiwr

Nodweddion
Annibyniaeth, gwthio’r ffiniau, dewrder, anghydffurfio



### Gofalwr

Nodweddion
Cydymdeimlad, cysondeb, teyrngarwch, empathi



### Digrifwr

Nodweddion
Hiwmor, gwreiddioldeb, synnwyr digrifwch digywilydd



### Dinesydd

Nodweddion
Tegwch, stiwardiaeth, atebolrwydd



### Rebel

Nodweddion
Arwain, parod i gymryd risg, unigolyddiaeth, dewrder, gonestrwydd

**Enw:** ____________________

**Nodweddion:**

____________________

____________________

____________________

____________________

____________________

____________________

____________________

____________________

____________________

____________________

____________________

***Archdeip:*** ____________________

*Enw'r Disgybl:* ____________________

# Atodiad 4 Safleoedd Taith Pererin Gogledd Cymru

Yr Holl Luniau gan © William Evers-Swindell

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

- Maes Glas: Abaty Dinas Basing
- Treffynnon: Ffynnon Gwenffrewi
- Chwitffordd: Eglwys y Santes Fair a Beuno Sant
- Chwitffordd: Maen Achwyfan
- Llanasa: Eglwys Sant Asa a Sant Cyndeyrn
- Trelawnyd: Eglwys Sant Mihangel


Abaty Dinas Basing

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

- Tremeirchion: Eglwys Corpus Christi
- Llanelwy: Cadeirlan Sant Asaph
- Cefn: Eglwys y Santes Fair


Cadeirlan Sant Asaph


Conwy
Cyngor Bwrdeistref Sirol

- Llannefydd: Eglwys Nefydd Sant a'r Santes Fair
- Llansannan: Eglwys Sant Sannan
- Llangernyw: Eglwys Sant Digain
- Eglwys-bach: Eglwys Sant Martin
- Rowen: Capel Seion
- Llangelynnin: Eglwys Sant Celynnin


Eglwys Sant Celynnin

Cyngor Gwynedd Council

- Bangor: Cadeirlan Bangor
- Clynnog Fawr: Eglwys Beuno Sant
- Pistyll: Eglwys Beuno Sant
- Nefyn: Hen Eglwys y Santes Fair
- Aberdaron: Eglwys Sant Hywyn
- Ynys Enlli: Capel Ynys Enlli


Eglwys Beuno Sant, Pistyll

# Atodiad 5 Lluniau Taith Pererin Gogledd Cymru

Cliciwch i weld albwm Flickr Taith Pererin Gogledd Cymru

Yr Holl Luniau gan © William Evers-Swindell


Cadeirlan Bangor


Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr


Hen Eglwys Llangelynnin


Ffynnon Beuno


Maen Achwyfan


Eglwys Beuno Sant, Pistyll


Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr


Hen Eglwys y Santes Fair



# Dod yn Bererin

Yn yr Ysgol

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Y Dyniaethau    Mathemateg a Rhifedd    Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ddod yn bererin.  Bydd y disgyblion yn ymchwilio i ganfod beth yw anghenion pererinion. Byddant yn meddwl pam mae pobl yn mynd ar bererindod a beth yw'r agweddau ymarferol i'w hystyried.  Byddant yn meithrin sgiliau mapiau ac yn cynllunio'u llwybr ar Daith Pererin Gogledd Cymru. Yn ogystal, byddant yn edrych ar deithiau tebyg y gallent fynd arnynt yn eu hardal leol ac yn eu cynllunio.

## Awgrymiadau am Weithgareddau

*4. Beth yw anghenion pererin?*

*5. Pa lwybr fyddech chi'n ei ddilyn?*

*6. Beth fyddai'n bererindod leol i chi?*

# BETH YW ANGHENION PERERIN?



Mae'r gweithgareddau isod yn annog disgyblion i ddefnyddio'r ymchwil a gasglwyd ganddynt yn 'Ymchwilio i Bererinion' i feddwl ac i ennyn eu chwilfrydedd am yr hyn sy'n ysgogi pobl i fynd ar bererindod a sut i fynd ati, yn ymarferol, i gynllunio pererindod.

**Gallai'r disgyblion:**

- Ddefnyddio'r ymchwil a wnaethant yn 'Ymchwilio i Bererinion' i drafod y rhesymau pam mae pobl yn mynd ar bererindod.
- Trafod y rhesymau pam y gallen nhw eu hunain fynd ar bererindod a beth fyddai'n eu hysgogi i fynd ar daith.
- Chwilio am flogiau, dyddiaduron neu unrhyw sylwadau gan wahanol bobl a darganfod y rhesymau pam iddynt ddewis mynd ar bererindod.
- Penderfynu pa bethau y byddai angen mynd â nhw ar bererindod gan ddefnyddio taflen weithgaredd Atodiad 6 i'w helpu.

  ***Gallai'r disgyblion:***
  - *Ddewis y 5 prif beth byddent yn mynd â nhw gyda nhw a nodi pam.*
  - *Trafod fel dosbarth pa rai yw'r pwysicaf a pha rai y byddent yn eu gadael ar ôl.*
  - *Penderfynu a oes pethau eraill y gallent fynd â nhw ond nad ydynt ar y daflen weithgaredd.*
  - *Trafod yr agweddau ymarferol ar fynd ar bererindod.*

**Gallai'r disgyblion ystyried:**

- Ble byddent yn aros.
- Sut fyddai cyflwr y llwybr (e.e. ffyrdd, mynyddoedd, bryniau, math o dir).
- Gyda pwy y byddent yn mynd.
- Beth fyddai eu rheswm dros fynd ar bererindod.
- Rhannu eu syniadau gyda gweddill y dosbarth a llunio rhestr o'r prif bethau i'w gwneud ac i beidio â'u gwneud ar bererindod.

Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr ©William Evers-Swindell



## Sgiliau

- Ymchwilio
- Darllen
- Ysgrifennu
- Llafaredd
- Cyfathrebu
- Chwilfrydedd
- Gwerthuso

## Offer

- Ymchwilio i Bererinion
- Y Rhyngrwyd
- Papur
- Pensiliau
- Llyfrgell
- Atodiad 6

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Dolenni

- Packing a Rucksack
- BBC Bitesize Maps
- BBC OS Map Skills
- OS Maps Online

# PA LWYBR FYDDECH CHI’N EI DDILYN?



Bydd y gweithgareddau isod yn helpu’r disgyblion i ddatblygu eu sgiliau mapiau yn cynnwys defnyddio mapiau hen a newydd, cyfeirnodau grid a mapiau OS.

**Gallai’r disgyblion:**

- Ddefnyddio map ar-lein o Ogledd Cymru i ddod o hyd i’r safleoedd sydd ar restr Taith Pererin Gogledd Cymru yn Atodiad 4.
- Defnyddio gwefan Llyfrgell Genedlaethol yr Alban i gymharu’r lleoedd y maent wedi’u darganfod â mapiau o’r gorffennol. (Cliciwch Side by side viewer a nodi’ch lleoliad yn y panel chwilio). Arbrofi gyda gwahanol fathau o fapiau ar hyd yr oesoedd.
- Defnyddio map cyfeirnodau grid Pererindod Pod (Atodiad 7) i ateb y cwestiynau yn Atodiad 8.
- Rhoi cynnig ar wneud eu map eu hunain a chwestiynau gan ddefnyddio’r templed gwag (Atodiad 9).
- Defnyddio mapiau OS i weld beth sydd yn y cyfeirnodau map a roddir yn Atodiad 10. Defnyddio’r rhestr o enwau ar waelod y dudalen i nodi’r atebion.

Mapiau OS y bydd arnoch eu hangen ar gyfer y gweithgarwch mapiau OS:

Landranger 123

Landranger 115

Landranger 116

Wanderings and Excursions in North Wales gan Roscoe – map gan Radclyffe (PD)




## Sgiliau

- Ymchwilio
- Darllen
- Ysgrifennu
- Chwilfrydedd
- Cyfathrebu

## Offer

- Y Rhyngrwyd
- Papur
- Pensiliau
- Llyfrgell
- Atodiad 4
- Atodiad 7
- Atodiad 8
- Atodiad 9
- Atodiad 10
- Mapiau OS

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd

## Dolenni

- BBC Bitesize Maps
- BBC OS Map Skills
- OS Maps Online
- NSL Maps

# BETH FYDDAI'N BERERINDOD LEOL I CHI?



Mae'r gweithgareddau isod yn annog disgyblion i feddwl am fannau hanesyddol ac ysbrydol yn eu hardal nhw ac i gynllunio pererindod yn agos at eu hysgol. Gallai hyn gynnwys cysylltu â safleoedd Cadw, eglwysi lleol neu unrhyw fannau o ddiddordeb hanesyddol.

**Gallai'r disgyblion:**

- Ymchwilio i weld beth yw'r lle ysbrydol a hanesyddol agosaf atynt a dewis lle neu leoedd i fynd ar daith iddynt.
- Gweithio mewn timau a defnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u datblygu hyd yma i gynllunio eu pererindod eu hunain.
- Creu llyfr lloffion o syniadau a rhestr o ffeithiau diddorol ar hyd eu taith.
- Argraffu mapiau a lluniau.
- Tynnu llun unrhyw syniadau ar bapur.
- Rhoi cyflwyniad PowerPoint fel grŵp a phenderfynu ar y bererindod orau yn y dosbarth i'w dilyn (naill ai yn gorfforol neu'n rhithiol).

- **Gallai'r disgyblion ystyried:**
    - *Pam yr hoffent fynd i'r lleoedd hynny a beth sydd o ddiddordeb iddynt.*
    - *Pa bethau y byddent yn mynd gyda nhw a pham maent wedi dewis yr eitemau hynny.*
    - *Pa bethau ymarferol y mae angen iddynt feddwl amdanynt e.e. sut y byddent yn cyrraedd yno, gyda phwy y byddent yn mynd.*
    - *Cynllunio'r llwybr gan ddefnyddio map, naill ai fap ar-lein neu fap OS.*

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Darllen
- Ysgrifennu
- Llafaredd
- Cyfathrebu
- Chwilfrydedd

## Offer

- Y Rhyngrwyd
- Papur
- Pensiliau
- Llyfrgell
- Mapiau
- PowerPoint

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu



Ffynnon Beuno ©William Evers-Swindell


## Dolenni

- Tudalen chwilio am safleoedd Cadw
- Map Cofnodion Cadw
- BBC Bitesize maps
- BBC OS Map Skills
- OS Maps Online
- NSL Maps

# Atodiad 6 Pethau i fynd â nhw ar bererindod




*Enw'r Disgybl:* ______________________________


N
NE
E
SE
S
SW
W
NW
10
9
8
7
6
5
4
3
2
1
A
B
C
D
E
F
G
H
I
J
K
L
M
N
O
City Dulas
Ceidio
Llanddona
Beaumaris
Gwalchmai
Llangefni
Capel Mawr
Llangaffo
Bethesda
Caernarfon
Bontnewydd
Nant Peris
A5
Llandudno
Colwyn Bay
Abergele
Rhyl
Prestatyn
West Kirby
Heswall
Flint
ST ASAPH/
Caerwys
Bodfari
Nannerch
Northop
Denbigh
Waen
Tal-y-bont
Llanrwst
Betws-y-Coed
Dolwyddelan
Pentrefoelas
Bylchau
Rhewl
Gellifor
Llanferres
Ruthin
Pen-y-stryt
Llanfihangel
Glyn Myfyr
Llangollen
Cwmtirmynach
Frongoch
Y Bala
Parc
Llanuwchllyn
Talardd
Rhyd-Ddu
Beddgelert
Pant Glas
Garndolbenmaen
Prenteg
Porthmadog
Criccieth
Chwilog
Llannor
Gellilydan
Blaenau Ffestiniog
Trawsfynydd
Eisingrug
Bronaber
Abergeirw
Harlech
Llanbedr
Llanenddwyn
Ganllwyd
Bryn-coed-Ifor
Llanymawddwy
Dolgellau
Barmouth
Minllyn
Aberangell
Mynytho
Abersoch
Cilan
Trefonen

# Atodiad 8 Cwestiynau am Fap Pererindod Pod

1. Chwiliwch am gyfeirnodau grid y safleoedd Sanctaidd y mae Pod yn ymweld â nhw ar ei bererindod




2. Chwiliwch am gyfeirnodau grid y mannau lle mae Pod yn aros i wersylla 

3. O dan beth mae Pod yn gorffwys yng nghyfeirnod grid **J7**?

4. Dydi Pod ddim yn gallu rhedeg mor gyflym â'r anifail yng nghyfeirnod grid **I9**. Beth yw hwnnw?

5. Mae Pod yn meddwl tybed sut mae pobl yn gallu mynd draw i Ynys Môn ac yna mae'n gweld y bont. Beth yw ei chyfeirnod grid?




6. Mae Pod yn clywed cri anifail o ganol niwl y môr yng nghyfeirnod grid **C5**. Beth yw'r anifail?

7. Mae dyn â binocwlars yn sôn wrth Pod am aderyn y mae'n gallu ei weld os yw'n gwylio am ddigon o amser. Beth yw cyfeirnod grid yr aderyn?



8. Pan fydd bron â gorffen ei bererindod, mae Pod yn edrych tua'r de-orllewin, allan i'r môr ac mae'n gweld Ynys Enlli. Beth yw ei chyfeirnod grid?

# Atodiad 9 Map gwag ar gyfer Pererindod



# Atodiad 10 Beth sydd yn y cyfeirnod grid hwn?

Defnyddiwch fapiau OS i gael gweld beth sydd yn y cyfeirnodau grid isod. Defnyddiwch y rhestr ar y gwaelod i'ch helpu a'r mapiau OS ar-lein i weld a ydych yn iawn.
www.explore.osmaps.com

SH**580720** ____________________

SJ**038743** ____________________

SJ**196774** ____________________

SH**120221** ____________________

SH**328423** ____________________

SJ**185762** ____________________

SH**982706** ____________________

SJ**128787** ____________________

SH**875674** ____________________

SH**751737** ____________________

**Cadeirlan Llanelwy, Maen Achwyfan ger Chwitffordd, Eglwys Beuno Sant, Hen eglwys Llangelynnin, Ffynnon Gwenffrewi, Eglwys y Santes Fair, Eglwys y Santes Fair a Beuno Sant, Abaty Dinas Basing, Capel Ynys Enlli, Eglwys Sant Digain**

*Enw'r Disgybl:* ____________________



# Bod yn Bererin

## Y Tu Allan i'r Ysgol

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Y Dyniaethau | Iechyd a Lles | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar y disgyblion yn mynd ar bererindod ac mae'n eu hannog i grwydro'u hardal leol.  Gall hyn fod i le penodol yn yr ysgol, i rywle yn eu pentref neu dref, neu'n rhan o drip ysgol.

## Awgrymiadau am Weithgareddau

*7. Pererin ymarferol*

*8. Pererin ysbrydol*

*9. Profiad o fod yn bererin*

## Gweithgaredd 7 - Y Tu Allan i'r Ysgol

# PERERIN YMARFEROL



Mae'r gweithgareddau isod yn canolbwyntio ar elfennau ymarferol mynd ar bererindod. Bydd y disgyblion yn dysgu dilyn mapiau a chwilio am nodweddion, arwynebau a pheryglon a allai fod ar y ffordd. Gall y disgyblion ddefnyddio'r cynllun y maent wedi'i greu yng Ngweithgaredd 6 neu greu pererindod newydd.

**Wrth i'r disgyblion gerdded neu ddilyn y llwybr gallent feddwl am:**

- Y gwahanol nodweddion sydd i'w gweld.
- Y gwahanol heolydd/arwynebau y maent yn cerdded arnynt.
- Y peryglon y gallant eu gweld a sut maent yn gofalu amdanynt eu hunain.
- Beth roedd pererinion y gorffennol yn ei weld a sut roeddent yn teimlo.
- Beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol rhwng y gorffennol a heddiw.



Bwlch yr Eifl ©Mike Costello

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Darllen
- Ysgrifennu
- Llafaredd
- Cyfathrebu
- Chwilfrydedd
- Arsylwi

## Offer

- Gweithgaredd 6
- Map
- Y Rhyngrwyd
- Papur
- Pensiliau

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Dolenni

- Cod Cefn Gwlad

# PERERIN YSBRYDOL

Mae'r gweithgareddau isod yn canolbwyntio ar yr ymateb creadigol i fod ar bererindod yn ogystal â'r cyfle i stopio a gwneud ymarferion ymwybyddiaeth ofalgar.



**Gallai'r disgyblion:**

- Gerdded ar hyd llwybr pererindod o'u dewis nhw ac ysgrifennu beth maent yn ei weld a sut maent yn teimlo.
- Ysgrifennu cerdd fer neu ddarn o ysgrifennu creadigol am eu taith, ar ôl dychwelyd i'r dosbarth.
- Chwilio am fan tawel ac eistedd yn llonydd. Rhoi cynnig ar y technegau ymwybyddiaeth ofalgar hyn:

## Anadlu Balŵn (Atodiad 11)

*Cam 1:*

- *Rhowch eich dwylo ar eich bol.*
- *Anadlwch i mewn yn araf trwy'ch trwyn i lenwi'ch ysgyfaint yn llwyr.*
- *Fe deimlwch eich bol a'ch brest yn chwyddo fel balŵn fawr.*

*Cam 2:*

- *Rŵan, anadlwch allan yn araf trwy'ch ceg a chwythu'r holl wynt allan o'ch ysgyfaint.*
- *Gadewch i'ch bol suddo'n fflat, fel pe baech yn gollwng y gwynt o falŵn ddychmygol.*
- *Gwnewch yr un peth bum gwaith.*

## Swyno â'r Synhwyrau

- *Enwch bum peth y gallwch eu gweld*
- *Pedwar peth y gallwch eu clywed*
- *Tri pheth y gallwch eu harogli*
- *Dau beth y gallwch gyffwrdd â nhw*

## Sgiliau

- Darllen
- Ysgrifennu
- Llafaredd
- Cyfathrebu
- Chwilfrydedd
- Ymwybyddiaeth Ofalgar

## Offer

- Atodiad 11
- Pensiliau
- Papur
- Clipfyrddau

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Dolenni

- BBC Mindfulness Activities

Gweithgaredd 9 - Y Tu Allan i’r Ysgol

# PROFIAD Y PERERIN



Mae’r gweithgareddau isod yn canolbwyntio ar y profiad o fod ar bererindod a’r gwahanol gymhellion ar gyfer y daith. Mae hyn yn cynnwys dogfennu taith, a darganfod byd natur a thirweddau amrywiol Cymru. Bydd y disgyblion yn darganfod mwy am eu cyd-deithwyr ac amdanyn nhw eu hunain.

**Gallai’r disgyblion:**

- Gerdded llwybr eu pererindod a thynnu lluniau o’r gwahanol safleoedd ar hyd y ffordd. Ffilmio blog fideo o’u taith neu ysgrifennu blog/dyddiadur.
- Siarad â’i gilydd ar hyd y llwybr a dysgu mwy am ei gilydd a’u diddordebau a pham eu bod wedi dewis dod ar bererindod i’r man hwn.
- Defnyddio Atodiad 12 a mynd ar helfa natur. Pa flodau / planhigion / pryfed y gallant eu gweld?
- Gwneud rhestr o safleoedd hanesyddol sydd ar hyd y ffordd er mwyn ymchwilio iddynt ar ôl dychwelyd i’r ysgol.
- Meddwl am bererinion y gorffennol a’r profiadau posib a gawson nhw wrth ymweld â safleoedd crefyddol.
- Meddwl sut roeddent yn teimlo wrth fynd ar daith a beth maent wedi’i ddysgu amdanynt eu hunain.



Hen Eglwys y Santes Fair ©William Evers-Swindell

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Darllen
- Ysgrifennu
- Llafaredd
- Cyfathrebu
- Chwilfrydedd

## Offer

- Atodiad 12
- Pensiliau
- Papur
- Clipfyrddau

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Iechyd a Lles
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu


## Dolenni

- RSPB Birds
- RSPB Insects
- Wildlife Trust flowers

# Anadlu Balŵn

**Cam 1:**

- *Rhowch eich dwylo ar eich bol.*
- *Anadlwch i mewn yn araf trwy'ch trwyn i lenwi'ch ysgyfaint yn llwyr.*
- *Fe deimlwch eich bol a'ch brest yn chwyddo fel balŵn fawr.*




**Cam 2:**

- *Rŵan, anadlwch allan yn araf trwy'ch ceg a chwythu'r holl wynt allan o'ch ysgyfaint.*
- *Gadewch i'ch bol suddo'n fflat, fel pe baech yn gollwng y gwynt o falŵn ddychmygol.*
- *Gwnewch yr un peth bum gwaith.*

# Atodiad 12 Taflen Chwilotwr Natur


Pili Pala ○




Aderyn ○



Llygad y Dydd ○



Gwenynen ○




Buwch Goch Gota ○



Malwen ○




Dant y Llew ○




Llyriad ○



Gwas y Neidr ○




Hwyaden ○



Gwiwer ○



Lindys ○





# Pererin Myfyriol

## Yn yr Ysgol

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Y Dyniaethau    Y Celfyddydau Mynegiannol    Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar gael y disgyblion i feddwl am yr hyn y maent wedi'i ddysgu ac i werthuso'u sgiliau ymchwilio ac archwilio.  Yn ogystal, bydd y disgyblion yn meddwl am y profiad a gawsant, y sgiliau y maent wedi'u meithrin a'r pethau y maent wedi'u mwynhau.

## Awgrymiadau am Weithgareddau

*10. Pererin Myfyriol*

# PERERIN MYFYRIOL



Mae'r gweithgareddau isod yn rhoi cyfle i'r disgyblion fyfyrio ar y gwaith y maent wedi'i wneud ar yr adnodd hwn a gwerthuso'u gwaith eu hunain. Bydd cyfle i'r disgyblion edrych ar y gwahanol sgiliau y maent wedi'u meithrin, y pethau a wnaethant yn dda a'r hyn y gallent ei wella. Byddant yn meddwl beth y byddent yn ei wneud yn wahanol pe baent yn gwneud y gweithgareddau eto yn y dyfodol a beth weithiodd yn dda yn eu barn nhw.

**Gallai'r disgyblion fyfyrio ar:**

- **Ymchwilio i Bererinion:** Beth weithiodd yn dda gyda'u hymchwiliadau a beth y gallent fod wedi'i wneud yn well? Pa ddulliau eraill y gallent fod wedi'u defnyddio i ddarganfod mwy am bererindota, pererinion a Thaith Pererin Gogledd Cymru?
- **Dod yn Bererin:** Beth oedd y prif sgiliau iddynt eu meithrin? Beth weithiodd yn dda a beth oedd angen ei wella?
- **Bod yn Bererin:** Beth wnaethon nhw ei fwynhau am fod yn bererin? Beth ddysgon nhw? Beth arall allen nhw fod wedi ei wneud yn wahanol?

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Ysgrifennu
- Llafaredd
- Cyfathrebu
- Chwilfrydedd
- Gwerthuso

## Offer


- Y nodiadau a'r gwaith o'r gweithgareddau eraill i'w gwerthuso

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Dolenni

- Disgrifiadau dysgu



Eglwys y Sant Cwyfan ©William Evers-Swindell